# POLISI A GWEITHDREFNAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS

EGLWYS EFENGYLAIDD BANGOR

Capel y Ffynnon

Yn cyfarfod yng
Nghanolfan Penrhosgarnedd
BANGOR
Gwynedd

Mawrth 2025

# POLISI A GWEITHDREFNAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS

CYNNWYS:


POLISI

1. Polisi a Datganiad o Fwriad

2. Egwyddorion Sylfaenol

3. Ystyr Arfer Da

4. Mathau o Gamdriniaeth ac Esgeulustod

GWEITHDREFNAU

5. Beth i'w wneud os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi am gamdriniaeth

6. Cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu

7. Manylion Cysylltu

8. Manylion y Swyddogion Diogelu

## 1. Polisi a Datganiad o Fwriad

Bwriad y Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yma yw i dynnu sylw at y ffaith bod Eglwys Efengylaidd Bangor yn sicrhau y bydd pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd i amddiffyn rhag niwed **bawb** sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eglwys.

Mae'r Efengyl yn dangos fod cariad Duw yn cael ei amlygu drwy ddyfodiad Crist i'r byd a bod y cariad hwnnw yn ei dro yn cael ei adlewyrchu drwy ein gwasanaeth a'n gofal ni dros ein gilydd. Mae cyfiawnder Duw yn gofyn ein bod yn gwenud daioni ac yn diogelu'r rhai sy'n cael eu gorthrymu, sy'n dlawd ac yn amddifad. Yn hyn o beth mae diogelu plant ac oedolion bregus yn rhan annatod o waith yr Eglwys.

Mae'r polisi yma'n nodi beth yw cyfrifoldebau'r Eglwys ac yn egluro'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl gan bawb sy'n ymwneud â'i gweithgareddau. Mae'n tynnu sylw'n glir at y pwysigrwydd sy'n cael ei roi gan yr Eglwys ar ddiogelu plant ac oedolion bregus a hyrwyddo eu lles.

Dylai pawb sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eglwys allu gwneud hynny mewn amgylchedd diogel a hwyliog a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae pawb sy'n ymwneud â'r Eglwys hon yn gyfrifol am hyn. Rydym yn cydnabod hefyd bod cam-drin plant ac oedolion bregus yn bwnc anodd ac emosiynol iawn.

Mae'r Eglwys yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles pob plentyn ac oedolyn drwy eu hamddiffyn rhag esgeulustod, bwlio a chamdriniaeth gorfforol, rywiol neu emosiynol. Mae'n ymwybodol hefyd bod modd i oedolion gael eu cam-drin yn ariannol hefyd. Mae'n benderfynol y bydd yn cwrdd â'i ymrwymiadau i sicrhau bod yr Eglwys yn rhoi cyfleoedd i bawb wneud hynny, gyda'r gofal o'r safon uchaf posibl.

Mae'r polisi a chanllawiau yma wedi'i ysgrifennu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sydd i'w gweld ar wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn: https://diogelu.cymru/cy
Mae'r Gweithdrefnau hefyd i'w cael mewn ap o'r Ap Store a Google Play.
Mae'r gweithdrefnau hynny wedi eu datblygu ar sail Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Bydd yr eglwys yn sicrhau:-

i. fod lles pawb, plant ac oedolion bregus yn fater o'r pwys mwyaf.
ii. bod gan bawb, beth bynnag yw eu hoed, diwylliant, anabledd, rhyw, iaith, gwreiddiau hiliol, credoau crefyddol a/neu hunaniaeth rywiol, yr hawl i gael eu diogelu rhag camdriniaeth.
iii. y bydd pawb sy'n darparu gweithgareddau'r Eglwys wedi eu dewis yn ofalus ac yn effro i arwyddion o gamdriniaeth.
iv. y bydd pob amheuaeth a chyhuddiad o gamdriniaeth yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn derbyn ymateb buan a phriodol.
v. y bydd gan bob aelod o staff (ar gyflog ac heb gyflog) neu wirfoddolwr sy'n gweithio i'r Eglwys gyfrifoldeb i adrodd am bryderon i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwynedd. Os yw'n ddiogel i wneud ac nid yw'n sefyllfa argyfyngus - perygl gwirioneddol uniongyrchol, ein

disgwyliad yw y bydd yr ymarferwr yn ymgynghori â Swyddog Diogelu (Unigolyn Diogelu Dynodedig) yr Eglwys ynghylch y mater.

## 2. Egwyddorion Sylfaenol

Bydd yr eglwys yn cymryd y cyfrifoldeb am:

i. barchu a hybu hawliau, dymuniadau a theimladau pob plentyn ac oedolyn sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r eglwys
ii. benodi, hyfforddi a goruchwylio pob gwirfoddolwr ac aelod o staff i fabwysiadau'r arfer gorau er mwyn diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth
iii. benodi'r holl weithwyr a gwirfoddolwyr fel y byddant yn cadw at y codau ymddygiad priodol a'r gweithdrefnau a'r polisïau diogelu priodol sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon
iv. ymateb i unrhyw honiadau'n briodol
v. adolygu'r polisi a'r canllawiau'n rheolaidd.
vi. deall fod disgwyl i weithwyr a gwirfoddolwyr (ymarferwyr) yr eglwys adrodd ar bryderon am ddiogelwch plant ac oedolion bregus yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).
vii. ddeall y gall camdriniaeth, yn arbennig camdriniaeth rhywiol, greu emosiynau cryf yn y bobl hynny sy'n wynebu sefyllfa o'r fath. Mae'n bwysig deall y teimladau hyn a pheidio gadael iddynt ymyrryd â'r farn am y camau gweithredu angenrheidiol i'w cymryd.
viii. ddeall y gall camdriniaeth ddigwydd mewn nifer o sefyllfaoedd yn cynnwys yn y cartref, yn yr ysgol, yn y gwaith ac mewn chwaraeon. Bydd rhai unigolion yn chwilio am swydd neu waith gwirfoddol gyda phobl ifanc er mwyn eu niweidio. Mae yna bobl yn yr eglwys fydd yn dod i gysylltiad gyda phlant a phobl ifanc yn rheolaidd a gallent fod yn ddolen bwysig yn y broses o ganfod achosion lle mae'r bobl ifanc angen eu diogelu. Rhaid rhoi gwybod am bob amheuaeth o arfer gwael i Swyddog Diogelu (Unigolyn Diogelu Dynodedig) yr Eglwys a rhaid dilyn canllawiau'r polisi hwn.
ix. diogelu plant ac oedolion bregus drwy benodi'n ddiogel. Mae angen i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion bregus gael gwiriad DBS cyn dechrau gweithio, fel gwirfoddolwr neu'n gyflogedig, ac mae'n rhaid adnewyddu'r gwiriad yma bob 3 blynedd.
x. bydd diogelwch corfforol plant a  phobl ifanc ac oedolion bregus sy'n cymryd ran yn ein gweithgareddau yn cael eu sicrhau drwy fesurau iechyd a diogelwch addas (e.e. asesiadau risg, lleoliad addas ac yn y blaen). Byddwn yn defnyddio templedi yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i'r pwrpas yma.

## 3. Ystyr Arfer Da

i. Gweithio mewn amgylchedd agored bob amser, lle bo'n bosibl, gan osgoi sefyllfaoedd preifat neu heb oruchwyliaeth, ac annog cyfathrebu agored.
ii. Trin pob person yn gyfartal gyda pharch ac urddas.
iii. Rhoi lles pob person yn gyntaf.
iv. Cadw pellter diogel a phriodol oddi wrth y defnyddwyr gwasanaeth (e.e. nid yw'n briodol i staff neu wirfoddolwyr gael perthynas glos gyda phlentyn neu ddefnyddiwr).
v. Cadw cofnod ysgrifenedig  o unrhyw gyfarfyddiad un wrth un y tu allan i gyfarfodydd yr eglwys.

vi. Datblygu perthynas gytbwys wedi'i seilio ar ymddiriedaeth gyfartal a rhoi'r gallu i blant ac oedolion gyfrannu yn y broses o wneud penderfyniadau.
vii. Cynnwys plant/pobl ifanc/oedolion lle bo'n bosibl.
viii. Ymddwyn yn addas bob amser a bod yn esiampl dda.
ix. Rhoi adborth cadarnhaol ac adeiladol yn hytrach na beirniadaeth negyddol.
x. Cydnabod anghenion datblygiadol a gallu pob person.
xi. Sicrhau caniatâd ysgrifenedig rhiant i weithredu in loco parentis wrth ofalu am blant, os bydd yr angen yn codi i roi cymorth cyntaf brys a/neu driniaeth feddygol arall.
xii. Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw anaf sy'n digwydd ynghyd â manylion unrhyw driniaeth a sy'n cael ei roi.
xiii. Gofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan riant os oes angen i aelodau'r eglwys gludo plentyn yn eu car.
xiv. Diweddaru cymwysterau ac yswiriant yn ôl yr angen.

## 4. Mathau o Gamdriniaeth ac Esgeulustod

I. **cam-drin corfforol:** taro, ysgwyd, taflu, llosgi neu ddefnyddio meddyginiaeth i wneud drwg i rywun.
II. **cam-drin emosiynol:** gwneud rhywun i deimlo'n ddiwerth, dweud bod neb yn eu caru, codi ofn – bygwth niwed, bod yn gas, ecsploetio i bwrpas rhyw neu waith.
III. **cam-drin rhywiol:** gorfodi rhywun i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, gorfodi rhywun i edrych ar a/neu greu deunydd pornograffig. Annog rhywun i ymddwyn mewn ffordd rhywiol anaddas.
IV. **Esgeulustod:** Peidio darparu bwyd, llety a dillad addas, peidio amddiffyn rhag niwed neu berygl corfforol, peidio sicrhau mynediad at olaf neu driniaeth feddygol; peidio sicrhau fod plentyn yn derbyn addysg reolaidd.
V. **camdriniaeth ariannol:** gall oedolion ddioddef o ladrad, cael eu twyllo, pwysau ar gynnwys ewyllys neu bŵer twrnai.

# GWEITHDREFNAU

## 5. Beth i'w wneud os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi am gamdriniaeth

Os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi eu bod yn cael eu cam-drin, p'un a yw hynny yn y cartref neu mewn lleoliad arall, yna wrth dderbyn yr wybodaeth yma dylech:

i. Ymateb yn dawel.
ii. Tawelu meddwl y person eu bod wedi gwneud y peth cywir drwy ddweud wrthych a'u sicrhau nad eu bai nhw yw hyn.
iii. Cymryd yr hyn y mae'r person yn ei ddweud o ddifrif.
iv. Osgoi gofyn cwestiynau, gadael i'r person ddweud ei stori. Os bydd angen gofyn cwestiynau er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r hyn mae'r person yn ei ddweud, PEIDIWCH â gofyn am fanylion penodol.

v. Gwnewch iddyn nhw deimlo'n dawel eu meddwl, ond peidiwch ag addo cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, oherwydd efallai na fydd hyn yn bosibl wrth i bethau ddatblygu yn nes ymlaen.
vi. Rhowch wybod i'r person am yr hyn y byddwch yn ei wneud nesaf.
vii. Os yw'n ddiogel i'r person i chi i wneud hynny, cysylltwch â Swyddog Diogelu i drafod eich pryderon.
viii. Yn sgil trafod gyda'r Swyddog Diogelu, cysylltwch ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ddi-oed i rannu eich pryderon
ix. Cadwch gofnod llawn ac ysgrifenedig o'r hyn a gafodd ei glywed/ddweud cyn gynted ag sy'n bosibl a pheidiwch ag oedi cyn adrodd ar y wybodaeth yma.

Dylai eich adroddiad gynnwys y canlynol:

i. Enw, oed a dyddiad geni'r person.
ii. Cyfeiriad cartref a rhif ffôn y person.
iii. A yw'r sawl sy'n gwneud yr honiad yn lleisio eu pryderon eu hunain neu bryderon rhywun arall?
iv. Natur yr honiad, gan gynnwys dyddiadau, amseroedd a ffactorau arbennig a gwybodaeth berthnasol arall.
v. Gwahaniaethu'n glir rhwng yr hyn sy'n ffaith, yn sylwadau neu'n si.
vi. Disgrifiad o unrhyw gleisiau gweladwy neu anafiadau eraill. Hefyd unrhyw arwyddion anuniongyrchol megis newidiadau mewn ymddygiad.
vii. Manylion tystion i'r digwyddiadau.
viii. Cyfrif y person, os gall ei roi, am yr hyn sydd wedi digwydd a sut y digwyddodd unrhyw gleisio neu anafiadau.
ix. Os yw'n blentyn, a gysylltwyd â'r rhieni?
x. Os felly, beth ddwedwyd?
xi. A gysylltwyd ag unrhyw un arall? Os felly, cofnodwch y manylion.
xii. Lle bo'n bosibl, dylech gadarnhau mewn ysgrifen o fewn 24 awr eich bod wedi adrodd y mater at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu a rhoi enw'r person cyswllt a gymerodd yr adroddiad.

## 6. Cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu:

Nid ein cyfrifoldeb ni yw hi i benderfynu a yw camdriniaeth wedi digwydd neu beidio, ond i adrodd yn ddi-oed i'r awdurdod priodol, sef Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd. Byddwn yn gwneud nodyn ysgrifenedig o'r wybodaeth i gyd felly os bydd gofyn i ni yn ddiweddarach, gallwn baratoi adroddiad ysgrifenedig.

Rhaid rhoi gwybod ar unwaith am achosion difrifol ac amlwg o gamdriniaeth.
Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen i'r sawl sydd wedi adrodd fynd i gyfarfod strategaeth i rannu gwybodaeth gyda'r asiantaethau perthnasol a chytuno ar sut i weithredu yn y dyfodol.

**Plant**

Mae camdriniaeth yn golygu gwneud niwed i blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed neu beidio sicrhau nad yw'n cael niwed. Mae camdriniaeth neu esgeulustod yn gallu digwydd o fewn teulu neu sefydliad, gan bobl sy'n eu hadnabod yn dda, neu yn llai aml gan rhywun dieithr.

**Oedolion**

Oedolion bregus yw pobl dros 18 nad ydyn nhw'n gallu amddiffyn eu hunain rhag niwed neu gael eu hecsbloetio oherwydd anabledd, oedran neu salwch. Mae camdriniaeth yn golygu gwneud niwed i rywun neu beidio sicrhau nad yw rhywun yn cael niwed. Mae camdriniaeth neu esgeulustod yn gallu digwydd o fewn teulu neu sefydliad, gan bobl sy'n eu hadnabod yn dda, neu yn llai aml gan rhywun dieithr.

## 7. Manylion Cysylltu

Cysylltwch yn ddi-oed gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae eu manylion cyswllt isod:

- os yw o dan 18 oed: **01758 704 455** neu cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru
- os yw dros 18 oed: **01766 772577** neu cynghoriasesuoedolion@gwynedd.gov.uk
- ar y penwythnos neu rhwng 5:00pm a 9:00am: Tîm Dyletswydd Argyfwng ar **01248 353551**

Mae modd i chi drafod y mater gyda Swyddog Diogelu (Unigolyn Diogelu Dynodedig) yr Eglwys ond peidiwch a gadael i hynny eich dal yn ôl yn ormodol rhag cysylltu â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Os oes pryderon ynglŷn â rhannu'r wybodaeth uchod gyda chydweithiwr (er enghraifft, os yw'r cyhuddiad yn erbyn Swyddog Diogelu) cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y uniongyrchol.

Os yw'n fater o berygl uniongyrchol ffoniwch yr Heddlu ar **999**.

**Beth fydd yn digwydd wedyn?**

- Bydd eich galwad yn cael ei gofnodi a gwybodaeth am yr unigolyn yn cael ei wirio i weld a yw'n adnabyddus.
- Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu gan asiantaethau eraill sydd â chysylltiad posib gyda'r unigolyn.
- Ar sail y wybodaeth sydd ar gael bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ymchwilio i'ch pryder.
- Gall hyn arwain at waith cynhwysfawr i amddiffyn yr unigolyn rhag dioddef niwed.

Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelu plant a phobl ifanc ar gael o:

**Gwefan Bwrdd Lleol Diogelu Gogledd Cymru:** https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru:** https://diogelu.cymru/cy

Mae'r Gweithdrefnau hefyd i'w cael mewn ap o'r Ap Store a Google Play.

## 8. Manylion y Swyddogion Diogelu

Enw’r personau cyswllt a enwyd ar gyfer Eglwys Efengylaidd Bangor yw:

| | | |
|---|---|---|
| **Rhoslyn Prys** | **07815067805 (Symudol)** | 01248 351289 (Cartref) |
| **Ann Eluned Jones** | **07935274060 (Symudol)** | 01248 712488 (Cartref) |